

ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD Y CYFARFOD	11 Chwefror 2021
TEITL YR EITEM	Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2020 Cyngor Gwynedd
PENNAETH ADRAN	Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
AWDUR	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor
PWRPAS	Cyflwyno'r Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio

1. CEFNDIR

- 1.1. Mae Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2020 Cyngor Gwynedd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn y Cyngor hwn gan Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf ym mis Awst 2019.
- 1.2. Dylid pwysleisio nad adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor mo'r adroddiad hwn.
- 1.3. Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol mae Archwilio Cymru yn cwblhau gwaith bob blwyddyn sydd ynghlwm a'r dyletswyddau canlynol – Archwilio Cyfrifon, sicrhau Gwerth am Arian, gwneud Gwelliannau Parhaus a chydymffurfio a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.
- 1.4. Fe gwblheir prosiectau penodol gan hefyd ddefnyddio gwybodaeth sydd wedi ei gasglu gan reoleiddwyr eraill megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn. Ceir crynodeb o ganfyddiadau a'r casgliadau ar gyfer y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn diwethaf yn y ddogfen crynodeb.
- 1.5. Yn amlwg bu i bandemig Covid-19 effeithio ar y gwaith archwilio dros y misoedd diwethaf ac o ganlyniad bu'n rhaid ail-edrych ar y rhaglen waith oedd wedi ei chynllunio gan hefyd edrych ar ffyrdd newydd o weithio.
- 1.6. Bydd swyddogion Archwilio Cymru yn cyflwyno'r adroddiad i'r Aelodau gan dynnu sylw at y prif bwyntiau a bydd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ar sail cynnwys yr adroddiad.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1. Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.